Credyd Pensiwn.
Taflen ffeithiau

› Beth yw Credyd Pensiwn?

Mae **Credyd Pensiwn** yn rhoi arian ychwanegol i'ch helpu gyda'ch costau byw os ydych dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac ar incwm isel. Gall **Credyd Pensiwn** hefyd helpu gyda chostau tai fel rhent tir neu ffioedd gwasanaeth.

Mae **Credyd Pensiwn** ar wahân i'ch Pensiwn y Wladwriaeth.

Gallwch gael **Credyd Pensiwn** hyd yn oed os oes gennych incwm arall, cynilion neu os ydych yn berchen ar eich cartref eich hun.

› Faint gallaf ei gael?

Mae **Credyd Pensiwn** yn werth, ar gyfartaledd, dros **£4,000 y flwyddyn.**

Efallai y cewch help ychwanegol os ydych yn ofalwr, ag anabledd difrifol, neu'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc.

Gallwch ddefnyddio'r gyfrifiannell **Credyd Pensiwn** i ddarganfod a ydych yn gymwys i gael Credyd Pensiwn a faint y gallech ei gael: **https://www.gov.uk/cyfrifiannell-credyd-pensiwn**

› Beth arall y gallaf ei gael os byddaf yn hawlio Credyd Pensiwn?

Os ydych yn cael **Credyd Pensiwn**, gallwch hefyd gael cymorth arall, fel:

- Taliad Tanwydd y Gaeaf (neu'r Taliad Gwresogi Gaeaf Oedran Pensiwn yn yr Alban)
- Help gyda chostau gwresogi drwy'r Cynllun Disgownt Cartrefi Cynnes a Thaliad Tywydd Oer
- Budd-dal Tai os ydych yn rhentu'r eiddo rydych yn byw ynddo
- Cymorth ar gyfer Llog Morgais os ydych yn berchen ar yr eiddo byw ynddo
- Gostyngiad yn y Dreth Gyngor
- Trwydded deledu am ddim os ydych yn 75 oed neu'n hŷn
- Help gyda thriniaeth ddeintyddol y GIG, sbectol a chostau cludiant ar gyfer apwyntiadau ysbyty, os ydych yn cael math penodol o **Gredyd Pensiwn**
- Gostyngiad ar wasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol os ydych chi'n symud tŷ

› Ydw i'n gymwys?

Rhaid i chi fyw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ac wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fod yn gymwys i gael **Credyd Pensiwn.**

Pan fyddwch yn gwneud cais am **Gredyd Pensiwn** cyfrifir eich incwm. Os oes gennych bartner, mae eich incwm yn cael ei gyfrifo gyda'i gilydd.

Mae Credyd Pensiwn yn ychwanegu:

- Eich incwm wythnosol i **£227.10** os ydych yn sengl
- Eich incwm wythnosol ar y cyd i **£346.60** os oes gennych bartner
- Os yw'ch incwm yn uwch, efallai y byddwch yn dal i fod yn gymwys i gael **Credyd Pensiwn** os oes gennych anabledd, rydych yn am rywun, mae gennych gynilion neu mae gennych gostau tai.

› Sut gallaf wneud cais?

Gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn ar-lein: **gov.uk/credyd-pensiwnYou**

Gallwch hefyd ffonio'r llinell gwneud cais am **Gredyd Pensiwn** ar **0800 99 1234**

› Pa wybodaeth sydd ei hangen arnaf i wneud cais?

Bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch chi a'ch partner os oes gennych un:

- ☑ Rhif Yswiriant Gwladol
- ☑ Gwybodaeth am unrhyw incwm, cynilion a buddsoddiadau sydd gennych
- ☑ Gwybodaeth am eich incwm, eich cynilion a'ch buddsoddiadau ar y dyddiad rydych am ôl-ddyddio eich cais iddo (fel arfer 3 mis yn ôl neu'r dyddiad y cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth os yw hyn yn gynt)
- ☑ Bydd angen manylion eich cyfrif banc arnoch hefyd. Yn dibynnu ar sut rydych yn gwneud cais, efallai y gofynnir i chi hefyd am enw'ch banc neu gymdeithas adeiladu, cod didoli a rhif cyfrif.

› Sut gallaf ddarganfod mwy?

Gallwch ddarganfod mwy am Gredyd Pensiwn drwy ymweld â **gov.uk/credyd-pensiwn**

Mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol

Gwiriwch eich cymhwysedd yn **gov.uk/credyd-pensiwn** neu drwy ffonio **0800 99 1234.**